CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU
THE LEARNED SOCIETY OF WALES
DATHLU YSGOLHEICTOD A GWASANAETHU'R GENEDL
CELEBRATING SCHOLARSHIP AND SERVING THE NATION

# Adolygiad 2010/11

BENIGOL • YSGOLHEICTOD • AW
ANNIBYNNOL • YMCHWIL • RHAGORI

**CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU**
**THE LEARNED SOCIETY OF WALES**
DATHLU YSGOLHEICTOD A GWASANAETHU'R GENEDL
CELEBRATING SCHOLARSHIP AND SERVING THE NATION

**Ymgynghorwyr Cyfreithiol**
Morgan Cole
Plas-y-parc
Caerdydd CF10 3DP

**Archwilwyr**
Pricewaterhouse Coopers LLP
Un, Ffordd y Brenin
Caerdydd CF10 3PW.

**Bancwyr**
HSBC Private Bank (UK) Limited
97 Stryd Bute
Bae Caerdydd CF10 5PB

**Cyfeiriad Cofrestredig**
Cofrestrfa'r Brifysgol
Rhodfa'r Brenin Edward VII
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NS

**Rhif Cwmni**
7256948

**Rhif Elusen Gofrestredig**
1141526


**Am fwy o wybodaeth am y Gymdeithas, cysylltwch â:**

**Dr Lynn Williams**
**Prif Weithredwr ac Ysgrifennydd**
**Cymdeithas Ddysgedig Cymru**
**Blwch SP 586**
**Caerdydd CF11 1NU**
**☎ (29) 2037 6951**
**e-bost at: lewilliams@cddc.cymru.ac.uk**

neu ymwelwch â gwefan y Gymdeithas:
**http://learnedsocietywales.ac.uk**

# Cyflwyniad gan y Llywydd

Cymdeithas Ddysgedig Cymru yw academi ysgolheigaidd genedlaethol gyntaf Cymru. Yr oedd ei sefydlu ym mis Mai 2010 yn ddatblygiad pwysig iawn ym mywyd deallusol a diwylliannol ein cenedl. Cyn hynny, nid oedd gan Gymru y math o academi ddysgedig a sefydlwyd ers oesoedd mewn rhannau eraill o Brydain a thrwy'r byd. O'r herwydd. nid oedd gallu deallusol Cymru yn cael ei gynrychioli'n briodol na'i hybu yn rhyngwladol; at hynny, nid oedd gan ei phobl, ei gwleidyddion, ei gwneuthurwyr polisi na'i busnesau unrhyw ffordd hwylus o fanteisio ar gyngor ysgolheigaidd, gwrthrychol, seiliedig ar ymchwil dda ar faterion o bwys allweddol, megis y gwnâi pobl debyg mewn gwledydd eraill. Bellach, mae gennym gymdeithas ddysgedig a fydd, dros amser a chyda'r cymorth priodol, yn gallu gwneud llawer i efelychu academïau ardderchog Llundain a Chaeredin, a'r academïau hynny sy'n ffynnu ledled Ewrop, yng Ngogledd America, a thu hwnt.



***Syr John Cadogan***

Yr ethos sy'n gyrru'r Gymdeithas yw *Dathlu Ysgolheictod a Gwasanaethu'r Genedl*. Ein nod yw dathlu, cydnabod, gwarchod ac annog rhagoriaeth ym mhob disgyblaeth ysgolheigaidd, yn y proffesiynau, mewn diwydiant a masnach, yn y celfyddydau ac mewn gwasanaeth cyhoeddus, er mwyn i Gymru gael ei chydnabod yn haeddiannol ym mhob man fel gwlad fechan, fedrus.

Bydd y Gymdeithas hefyd yn harneisio ac yn sianelu doniau'r genedl er budd y wlad. Bydd yn gwarchod ac yn cynnal yr union weithgareddau hynny sy'n sail i fedr a deheurwydd Cymru, yn enwedig yn ystod y cyfnod anodd hwn. Ein nod yn y tymor byr yw sefydlu'r Gymdeithas fel sefydliad a gydnabyddir fel cynrychiolydd dysg Cymru yn rhyngwladol, ac fel ffynhonnell sylwadau a chynghorion awdurdodol, ysgolheigaidd a beirniadol ar faterion polisi sy'n effeithio ar Gymru.

Fel y dengys y tudalennau sy'n dilyn, bu'n blwyddyn gyntaf yn flwyddyn dra chalonogol. Rhoesom gychwyn ar ddatblygu rhaglen gyffrous o ddarlithoedd a digwyddiadau eraill. Yn ystod ein Cylch cyntaf o Etholiadau, etholwyd carfan gref iawn o Gymrodyr newydd, yn ychwanegol at y rhestr ardderchog o Gymrodyr Cychwynnol a fu'n bennaf cyfrifol am sefydlu'r Gymdeithas. Enillasom statws elusen. Ac yr ydym wedi mentro i'r drafodaeth ar bolisi cyhoeddus drwy gyhoeddi papur ar y bwlch cyllido rhwng Lloegr a Chymru ac ar y cymorth a rydd Llywodraeth Cynulliad Cymru i'n prifysgolion. Yn hyn oll, bu'r cymorth ysgogol hael a roddodd Prifysgol Cymru i ni yn anhepgor. Derbyniasom gymorth gwerthfawr o ffynonellau eraill yn ogystal, er enghraifft gan y prifysgolion hynny yng Nghymru lle cynhaliwyd ein digwyddiadau.

Ond megis dechrau yr ydym yn 2010/11. Dros gyfnod o flynyddoedd y bydd Cymdeithas Ddysgedig Cymru yn aeddfedu'n llawn, ac, yn naturiol, bydd yr ystod o ddigwyddiadau a drefnir ganddi yn cynyddu dros amser: ar y tymor hir y bydd hi'n canolbwyntio. Mae gan y Gymdeithas waith mawr o'i blaen – ac er mwyn gwireddu ei hamcanion uchelgeisiol bydd arni angen nid yn unig gefnogaeth ei Chymrodyr a'r gymuned academaidd yng Nghymru, ond hefyd gefnogaeth y gymdeithas ehangach. Edrychaf ymlaen at gael adrodd ar ei chynnydd mewn Adolygiadau Blynyddol yn y dyfodol.



Syr John Cadogan CBE DSc FRSE FRSC PLSW FRS
Y Llywydd Cyntaf

# Lansio'r Gymdeithas, Mai 2010

## Cychwyniad y Gymdeithas: cyn y Lansio

Bu sefydlu academi ddysg genedlaethol yng Nghymru yn destun trafod am rai blynyddoedd cyn lansio'r Gymdeithas ym mis Mai 2010. Ond ni wireddwyd y freuddwyd tan 2008, pan ddaeth carfan o ysgolheigion annibynnol a gynrychiolai'r prif ddisgyblaethau academaidd ynghyd, yn wirfoddol ac o'u bodd, i fynd i'r afael â'r ffaith nad oedd gan Gymru academi genedlaethol.

Ffurfiasant Gyngor Cysgodol, a hynny er mwyn sefydlu'r hyn y daethpwyd i'w adnabod fel Cymdeithas Ddysgedig Cymru. Yn ystod 2009, enwodd y Cyngor Cysgodol ysgolheigion nodedig eraill (y mwyafrif ohonynt yn Gymrodyr o'r Gymdeithas Frenhinol neu'r Academi Brydeinig), a'r rhain, ynghyd â'r garfan wreiddiol , a ddaeth yn Gymrodyr Cychwynnol y Gymdeithas. Ym mis Chwefror 2010, etholodd y Cymrodyr Syr John Cadogan yn Llywydd Cyntaf y Gymdeithas, ac ar 18 Mai, ar ôl cyfnod o rai misoedd o fodoli fel corff cysgodol, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cynullias Cymru, sefydlwyd y Gymdeithas yn ffurfiol, ac fe'i hymgorfforwyd yn gwmni cyfyngedig dan warant.

## Y Seremoni Lansio, 25 Mai 2010

Ar 25 Mai 2010, o fewn wythnos i'r ymgorfforiad, lansiwyd Cymdeithas Ddysgedig Cymru, mewn seremoni ddifyr, gyda llawer yn bresennol, yn Theatr Reardon Smith, Amgueddfa Genedlaethol Cymru. Cyfarchodd Llwydd y Gymdeithas y Cymrodyr Cychwynnol, a chyn iddynt dorri'u henwau ar Gofrestr y Cymrodyr (a gomisiynwyd oddi wrth Wasg Gregynog), fe'u cyflwynwyd oll i gynulleidfa wâdd frwdfrydig a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o gymdeithasau dysg eraill Prydain, o sefydliadau addysg uwch o Gymru a thu hwnt, ac o Lywodraeth Cynulliad Cymru.



*Siaradwyr a Chymrodyr Cychwynnol yn y Seremoni Lansio*

Cafwyd anerchiadau cyfarch gan:

***Yr Athro John Harries FInstP FRMetS***, Athro Arsylwi Daearol, Coleg Imperial, Llundain; Prif Ymgynghorydd Gwyddonol Cymru (etholwyd yn FLSW, 2010/11)

***Yr Athro Geoffrey Boulton OBE DSc FGS FRSE FRS***, Prifysgol Caeredin; Ysgrifennydd Cyffredinol, Cymdeithas Frenhinol Caeredin

***Syr David Davies CBE DSc FREng FIET FLSW FRS***, yn flaenorol: Is-Ganghellor, Prifysgol Loughborough; Llywydd, Academi Beirianneg Frenhinol

***Yr Athro Susan Mendus FLSW FBA***, Prifysgol Caerefrog; Dirprwy Lywydd (Gwyddorau Cymdeithasol), yr Academi Brydeinig

***Yr Athro Dâm Jean Thomas DBE CBE FMedSci FLSW FRS***, Prifysgol Caergrawnt; Dirprwy Lywydd ac Ysgrifennydd Biolegol, y Gymdeithas Frenhinol

***Mr Paul Loveluck CBE JP***, Llywydd Amgueddfa Genedlaethol Cymru

Anerchiad gan Lywydd Cyntaf y Gymdeithas, Syr John Cadogan, oedd diweddglo'r Lansiad.

# Cymrodyr Cychwynnol y Gymdeithas

Yr Athro Sydney Anglo FSA FRHistS FLSW FBA
Yr Athro Huw Beynon DSocSc AcSS FLSW
Syr Leszek Borysiewicz KBE FRCP FRCPath FMedSci FLSW FRS
Syr John Cadogan CBE DSc FRSE FRSC PLSW FRS
Yr Athro Richard Carwardine FRHistS FLSW FBA
Yr Athro Thomas Charles-Edwards FRHistS FLSW FBA
Yr Athro Ian Clark FLSW FBA
Yr Athro Stuart Clark FRHistS FLSW FBA
Yr Athro Marc Clement FIEE FLSW
Yr Athro David Crystal OBE FLSW FBA
Yr Athro Syr Barry Cunliffe CBE FSA FLSW FBA
Yr Athro Martin Daunton LittD FRHistS FLSW FBA
Syr David Davies CBE DSc FREng FIET FLSW FRS
Yr Athro Wendy Davies OBE FSA FRHistS FLSW FBA
Yr Athro Robert Dodgshon FLSW FBA
Yr Athro Kenneth Dyson AcSS FRHistS FLSW FBA
Yr Athro Dianne Edwards CBE ScD FRSE FLSW FRS
Syr Sam Edwards FLSW FRS
Yr Athro Richard Evans DLitt FRHistS FRSL FLSW FBA
Yr Athro Robert Evans FLSW FBA
Yr Athro Roy Evans CBE FREng FICE FIStructE FLSW
Yr Athro y Farwnes (Ilora) Finlay o Landaff FRCP FRCGP FLSW
Y diweddar Farwn (Brian) Flowers o Queen’s Gate yn Ninas Westminster Kt DSc FInstP FLSW FRS (*ob.* 25 Mehefin 2010)
Yr Athro R Geraint Gruffydd DLitt FLSW FBA
Dâm Deirdre Hine DBE FFPHM FRCP FLSW
Yr Athro Christopher Hooley FLSW FRS
Syr John Houghton CBE FLSW FRS
Yr Athro Graham Hutchings DSc FIChemE FRSC FLSW FRS
Yr Athro Geraint H Jenkins DLitt FLSW FBA
Yr Athro Robert M Jones DLitt FLSW FBA
Syr Roger Jones OBE FLSW
Yr Athro Andrew Linklater AcSS FLSW FBA
Syr Ronald Mason KCB FRSC FIMMM FLSW FRS
Yr Athro John McWhirter FREng FIMA FInstP FIEE FLSW FRS
Yr Athro Susan Mendus FLSW FBA
Yr Athro Derec Llwyd Morgan DLitt FLSW
Y Barwn (Kenneth O) Morgan o Aberdyfi DLitt FRHistS FLSW FBA
Yr Athro Prys Morgan FRHistS FSA FLSW
Yr Athro Michael O’Hara FRSE FLSW FRS
Yr Athro David Olive CBE FLSW FRS
Yr Athro John Wyn Owen CB FRGS FHSM FRSocMed FLSW
Yr Athro Roger Owen FREng FLSW FRS
Yr Athro John Pearce FLSW FRS
Syr Keith Peters FMedSci FRCP FRCPE FRCPath FLS FRS
Syr Dai Rees DSc FRSC FRCPE FMedSci FSB FLSW FRS
Yr Athro Keith Robbins DLitt FRSE FRHistS FLSW
Yr Athro Charles Stirling FRSC FLSW FRS
Y diweddar Athro Eric Sunderland CBE FIBiol FLSW (*ob.* 24 Mawrth 2010)
Yr Athro Dâm Jean Thomas DBE CBE ScD FMedSci FLSW FRS
Yr Athro Syr John Meurig Thomas DSc ScD FRSE FLSW FRS
Syr Keith Thomas FRHistS FLSW FBA
Yr Athro M Wynn Thomas OBE FLSW FBA
Yr Athro Steven Tipper AcSS FLSW FBA
Yr Athro John Tucker FBCS FLSW
Yr Athro Kenneth Walters DSc FLSW FRS
Yr Athro Peter Wells CBE DSc FREng FMedSci FIET FinstP FLSW FRS
Yr Athro Alasdair Whittle FLSW FBA
Y diweddar Athro Syr David Williams QC DL FLSW (*ob.* 6 Medi 2009)
Yr Athro Syr Dillwyn Williams FMedSci FRCP FRCPath FLSW
Yr Athro Robin Williams CBE FInstP FLSW FRS
Y Parchedicaf a’r Gwir Anrh Dr Rowan Williams PC DD FRSL FLSW FBA

# Llywodraeth Gorfforaethol

Ymgorfforwyd y Gymdeithas fel cwmni hollol annibynnol cyfyngedig trwy warant (rhif cwmni, 7256948) ar 18 Mai 2010, dan Femorandwm ac Erthyglau Sasiwn. Cafodd statws elusennol ar 19 Ebrill 2011 (Rhif Elusen Gofrestredig, 1141526).

## Y Cyngor

Dywed yr Erthyglau mai'r Cyngor fydd corff llywodraethol y Gymdeithas, gyda chyfrifoldeb "dros holl lywodraeth a rheolaeth y Gymdeithas" (Erthygl 20.1). Etholir aelodau'r Cyngor gan Gymrodyr y Gymdeithas, o'u plith eu hunain. Y deunaw aelod o'r Cyngor Cychwynnol, yr etholwyd hwynt cyn yr ymgorfforiad, yw:

Syr John Cadogan (**Llywydd a Chadeirydd y Cyngor** — etholwyd gan y Cymrodyr Cychwynnol, Chwefror 2010)
Yr Athro Kenneth Dyson
Yr Athro Dianne Edwards
Yr Athro Robert Evans
Yr Athro H Roy Evans
Yr Athro Farwnes Ilora Finlay
Yr Athro Geraint H Jenkins
Syr Roger Jones
Syr Ronald Mason
Yr Athro Susan Mendus
Yr Athro Derec Llwyd Morgan
Yr Athro Prys T J Morgan
Yr Athro John Wyn Owen
Yr Athro Keith G Robbins
Yr Athro Sir John Meurig Thomas
Yr Athro M Wynn Thomas
Yr Athro John Tucker
Yr Athro Robin H Williams

Cynhaliwyd pum cyfarfod o'r Cyngor yn ystod y flwyddyn er pan ymgorfforwyd y Gymeithas.

## Cylchdroi aelodaeth y Cyngor

Cymeradwyodd y Cyngor drefn a fydd yn sicrhau y bydd ei aelodaeth yn newid bob hyn a hyn. O dan y drefn hon bydd traean o'r aelodau cychwynnol yn gwasanaethu am ddwy flynedd (tan Fai 2012), bydd traean yn gwasanaethu am dair blynedd, a'r gweddill yn gwasanaethu am bedair blynedd. Caiff enwebiadau eu gwahodd o blith y Gymrodoriaeth yn ei chyfanrwydd i lenwi'r llefydd gwag a greir yn sgîl y drefn hon.

## Y strwythur llywodraethu

Yn ystod blwyddyn gyntaf y Gymdeithas treuliodd y Cyngor, o raid, gryn amser yn trafod materion llywodraethol. Penderfynodd mai strwythur llywodraethol cymharol syml fydd yn fwyaf addas ar y cychwyn.

Penderfynodd y Cyngor y dylid penodi pedwar Swyddog, yn ogystal â'r Llywydd: dau Is-Lywydd, Trysorydd ac Ysgrifennydd Cyffredinol. Etholwyd y canlynol i'r Swyddi hyn gan y Cyngor ym mis Gorffennaf 2010 (am gyfnod cychwynnol o dair blynedd):

**Is-Lywyddion:**
Yr Athro Dianne Edwards
Yr Athro M Wynn Thomas

**Trysorydd:** Syr Roger Jones

**Ysgrifennydd Cyffredinol:** Yr Athro John Tucker

Mae'r Is-Lywyddion yn gyfrifol am y ddwy adran gyffredinol y gosodir Cymrodyr y Gymdeithas ynddynt:

**Gwyddoniaeth, Technoleg a Meddygaeth** (Yr Athro Dianne Edwards)

**y Celfyddydau, y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol** (Yr Athro Wynn Thomas)

Sefydlodd y Cyngor hefyd ddau bwyllgor i'w gynorthwyo yn ei waith:

y **Pwyllgor Materion Cyffredinol** sydd â'r canlynol yn aelodau etholedig ohono, yn ychwanegol at y pum Swyddog *ex officio*:

Yr Athro Geraint Jenkins; Yr Athro Prys Morgan; ac Yr Athro Keith Robbins

a'r **Pwyllgor Cyllid** sydd â'r canlynol yn aelodau etholedig ohono, yn ychwanegol at y Trysorydd a'r Ysgrifennydd Cyffredinol sy'n aelodau *ex officio*:

Yr Athro Kenneth Dyson; Yr Athro John Wyn Owen; ac Yr Athro Robin Williams

Ar 1 Chwefror 2011, penododd y Cyngor Dr Lynn Williams yn **Brif Weithredwr ac Ysgrifennydd** y Gymdeithas (ef hefyd yw Ysgrifennydd y Cwmni). Cyn hynny, yr Athro John Tucker fu'n gweithredu fel Ysgrifennydd y Cwmni.

# Amcan Strategol a Chenhadaeth

Cymeradwyodd y Cyngor yr **Amcan Strategol** canlynol dros y tymor byr a'r tymor canolig:

> y bydd y Gymdeithas, erbyn diwedd 2014/15, yn datblygu i fod yn sefydliad cynaliadwy addas ar gyfer ei dibenion, yn sefydliad a gydnabyddir fel cynrychiolydd dysg Cymru yn rhyngwladol, ac fel ffynhonnell o sylwadau a chynghorion awdurdodol, ysgolheigaidd a beirniadol i'r Cynulliad Cenedlaethol a chyrff eraill ar faterion polisi sy'n effeithio ar Gymru

a mabwysiadodd y **Datganiad hwn o'i Chenhadaeth**:

- dathlu, cydnabod, cadw, gwarchod ac annog rhagoriaeth ym mhob disgyblaeth ysgolheigaidd, ac yn y proffesiynau, mewn diwydiant a masnach, yn y celfyddydau ac mewn gwasanaeth cyhoeddus;
- hyrwyddo datblygiad dysg ac ysgolheictod a rhannu a chymhwyso canlyniadau ymholiadau ac ymchwil academaidd;
- rhoddi cynghorion a chynnig sylwadau ysgolheigaidd annibynnol ac arbenigol ar faterion sy'n effeithio ar les Cymru a'i phobl, a datblygu trafodaeth a chydweithrediad cyhoeddus ar faterion o bwys cenedlaethol a rhyngwladol.

## Cyllid a chymorth

Ni ddaethai'r Gymdeithas i fod heb gymorth. Ni fuasai wedi cael ei sefydlu ac ni fuasai wedi ymgynnal yn ystod 2010/11 heb gymorth cychwynnol hael gan Brifysgol Cymru. Ymrwynodd y Brifysgol i ddarparu grant iddi dros gyfnod o dair blynedd yn y lle cyntaf, sef o 2009/10 hyd at ddiwedd 2011/12, darparodd swyddfeydd i'r Gymdeithas a chymorth seilwaith pwysig arall. Heb y cymorth hwn, ni ellid bod wedi sefydlu'r Gymdeithas, heb sôn am sicrhau'r cynnydd a wnawd o ran datblygu ei rhaglen waith. Mae'r Gymdeithas yn ddiolchgar iawn i Gyngor y Brifysgol am ei ymrwymiad pell-weledol i'r nod o wireddu'r weledigaeth o greu academi genedlaethol i Gymru. Ar ôl estyn y cymorth hwn, mae'r Brifysgol bellach wedi camu'n ôl er mwyn gadael i'r Gymdeithas wneud ei gwaith yn hollol annibynnol.

Derbyniodd y Gymdeithas hefyd gymorth hael gan sefydliadau eraill. Maent yn cynnwys Prifysgolion Caerdydd, Abertawe ac Aberystwyth, ac APCC, a ddarparodd neuaddau ar gyfer digwyddiadau'r Gymdeithas yn ystod 2010/11. Rhoddodd Prifysgol Abertawe hefyd gartref i wefan y Gymdeithas. At hyn, noddwyd seremoni Lansio'r Gymdeithas ym mis Mai 2010 gan ein Cyfreithwyr, Morgan Cole, ac mae PricewaterhouseCoopers yn ei haelioni wedi cytuno i ddarparu gwasanaethau archwilio *pro bono*.

(Bydd cyfrifon cyntaf y Gymdeithas yn cynnwys y cyfnod rhwng ei hymgorffori ar 18 Mai 2010 hyd at 31 Gorffennaf 2011 a chânt eu cyflwyno yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Gorffennaf 2012.)

Gan ddechrau yn 2011/12, bydd y Gymdeithas hefyd yn derbyn rhywfaint o incwm o danysgrifiadau a delir gan y Cymrodyr ac o ffioedd mynediad a delir gan y Cymrodyr a etholir o'r newydd.

Gyda'r cyllid a fedd, gweithredu'n bwyllog gymedrol y bydd y Gymdeithas, ond bydd ystyr a gwerth i'r hyn a wna. Y mae lefelau staffio presennol y Gymdeithas yn adlewyrchu'r moddion sydd ganddi - un Prif Weithredwr llawn-amser ac un Cynorthwyydd Gweinyddol rhan-amser. Wrth ddatblygu ei gynlluniau busnes a strategol (cynlluniau uchelgeisiol y gellir eu cyflawni), cydnabu'r Cyngor fod angen chwilio ar fyrder am ffynonellau incwm eraill er mwyn galluogi'r Gymdeithas i ddatblygu ei rhaglen dros y blynyddoedd nesaf. Cychwynnwyd ar y gwaith hwn eisoes yn 2010/11, ac eir ati o ddifrif yn ystod 2011/12.

Ar ôl i'r Gymdeithas ennill statws elusen gan y Comisiwn Elusennau, penderfynodd lansio yn ddiweddarach yn 2011 Gronfa Apêl Cymrodyr, yn ogystal ag apêl fwy cyffredinol at unigolion a sefydliadau eraill.

# Y Rhaglen: Themâu a Digwyddiadau

Datblygir rhaglen weithgareddau'r Gymdeithas yn raddol, o raid. Fel rhan o'i rhaglen gychwynnol, dechreuodd y Gymdeithas ar y gwaith o ddatblygu cyfresi o ddarlithoedd ac ar ddilyn themâu penodol. Y **Cyfresi Darlithoedd** a lansiwyd yn 2010/11 oedd:

**Estyn y Ffiniau** - cyfres o ddarlithoedd lle gwahoddir academyddion o fri i drafod estyn ffiniau ymchwil ac i osod eu cyfraniadau eu hunain yn eu cyd-destun. Bydd rhai o'r darlithwyr hyn ymwelwyr â Chymru, yn ysgolheigion blaenllaw yn eu gwahanol ddisgyblaethau.

**Dathliadau** - cyfres o ddarlithoedd yn nodi dathliadau arbennig neu ben-blwyddi, yn aml am bobl neu gyflawniadau cysylltiedig â Chymru. Gwahoddir academyddion nodedig i drafod arwyddocâd rhyw ddarganfyddiad neu'i gilydd neu i ddathlu bywyd neu ddigwyddiad.

Hysbysebir darlithoedd y ddwy gyfres ar led ac fel arfer byddant yn agored i bawb, gyda mynediad iddynt yn rhad ac am ddim.

Cymeradwywyd y **Themâu** canlynol yn 2010/11.

### Dyfeisio, Arloesi a Newidiaeth

Wrth galon ein dealltwriaeth o newidiaeth mae'r berthynas ryngweithiol rhwng agweddau technegol, masnachol a chymdeithasol darganfyddiadau, gwelliannau ac arloesi. Bydd y digwyddiadau a drefnir i drafod y thema hon yn ystyried yr agweddau sylfaenol hyn o'r "economi wybodaeth".

### Hanes Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Bu gan Gymru a'i phobl ran sylweddol yn nhwf gwybodaeth wyddonol ac yn y defnydd ohoni, ond mae hanes ac etifeddiaeth gwyddoniaeth a thechnoleg yng Nghymru wedi'u hesgeuluso i raddau helaeth. Bydd y thema hon yn datblygu hanes gwyddoniaeth a thechnoleg yn gyffredinol, ac etifeddiaeth wyddonol a thechnegol Cymru yn arbennig.

### Y Prifysgolion

Mae Prifysgolion yn ganolog i ddatblygiad y byd modern. Mae'r hyn y mae unigolion, busnesau a llywodraethau yn ei ddisgwyl gan brifysgolion yn cynyddu, ac mae'r disgwyliadau hyn yn gwrthdaro â'i gilydd weithiau. Mae'r cwestiwn *Beth yw diben Prifysgolion?* yn un y gellir ei ofyn ar hyd a lled y byd. Bydd y Gymdeithas yn trefnu digwyddiadau yn trafod swyddogaethau cymdeithasol ac economaidd Prifysgolion, a'u swyddogaethau deallusol a diwylliannol.



*Sustainable Energy - without the hot air - Yr Athro David Mackay FRS, ym Mhrifysgol Caerdydd, 31 Mawrth 2011*

### Ynni

Mae cynhyrchu ynni, a'i ddefnyddio, yn sylfaenol i'n bywyd cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol. Mae'r problemau sydd ynghlwm wrth ynni wedi esgor ar dechnolegau mawreddog, mentrau masnachol enfawr, dadleuon rhyngwladol chwerw, trafodaethau rhethregol brwd, daliadau tanbaid, a dyheadau sydd weithiau'n afrealistig. Bydd y Gymdeithas yn trefnu digwyddiadau a gweithgareddau i archwilio'r testun cymhleth a phwysig hwn o nifer o safbwyntiau gwahanol, gan ddefnyddio tystiolaeth drwyadl ysgolheigaidd i fynd i'r afael â phob math o ddyfaliadau a chredoau.



*Cymrodyr Cychwynnol, Yr Athro Dianne Edwards a'r Athro Robin Williams, yn mwynhau darlith Yr Athro MacKay*

***Mae'r Gymdeithas yn agored i gynigion gan academyddion ac eraill, yng Nghymru a thu hwnt, am ddarlithoedd, symposia a gweithgareddau a digwyddiadau eraill, a fydd yn cryfhau ac yn datblygu ei Rhaglen thematig.***

## Digwyddiadau 2010/11

**28 Mehefin 2010 ym Mhrifysgol Caerdydd**
*Probability and Analysis at the Highest Degree of Non-commutativity*, gan Yr Athro Dan-Virgil Voiculescu, Prifysgol California, Berkeley

Dyma ddigwyddiad cyntaf Cymdeithas Ddysgedig Cymru a dyma'r Ddarlith Estyn y Ffiniau gyntaf. Trefnwyd gan Yr Athro David E Evans (etholwyd yn FLSW, 2010/11), Ysgol Fathemateg, Prifysgol Caerdydd.

**26 Hydref 2010 ym Mhrifysgol Abertawe**
Digwyddiad dwy-ran (y gyntaf yn y Gyfres Dathliadau) ar *Swyddogaeth Cymdeithasau wrth Ddatblygu Hunaniaeth Genedlaethol:*

*Learned Societies and the Making of National Identity: A European Perspective*, gan Yr Athro Robert Evans FBA FLSW, Athro Brenhinol Hanes, Prifysgol Rhydychen; a

*Getting Our Act Together: Welsh Society and Welsh Societies, 1700-2000*, gan Yr Athro Prys Morgan FRHistS FSA FLSW, Athro Emeritws Hanes, Prifysgol Abertawe

**25 Tachwedd, 2010 ym Mhrifysgol Abertawe**
*Designing BLOODHOUND SSC – The 1000mph Car,* Darlith yng Nghyfres Estyn y Ffiniau gan Yr Athro Kenneth Morgan FREng FICE FIMA (etholwyd yn FLSW, 2010/11), Coleg Peirianneg, Prifysgol Abertawe

(Nod Project BLOODHOUND SSC, erbyn 2012, yw dylunio car sy'n gallu cyrraedd 1000 o filltiroedd yr awr, gan guro'r Record Byd am Gyflymdra Dros Dir o 30 y cant.)

**2 Rhagfyr 2010 ym Mhrifysgol Abertawe**
*The Commercialisation of Science*, y ddarlith gyntaf o dan y Thema Dyfeisio, Arloesi a Newidiaeth, gan Yr Athro Graham Richards CBE DSc FRSC (etholwyd yn FLSW, 2010/11), Prifysgol Rhydychen

**17 Ionawr 2011 ym Mhrifysgol Caerdydd**
*Geometry and Physics: Past, Present and Future*, darlith yng Nghyfres Estyn y Ffiniau gan Syr Michael Atiyah OM FRS FRSE, Prifysgol Caeredin

**31 Mawrth 2011 ym Mhrifysgol Caerdydd**
*Sustainable Energy - Without the Hot Air*, darlith o dan y Thema Ynni, gan Yr Athro David MacKay FRS (Prifysgol Caergrawnt, Prif Ymgynghorydd Gwyddonol yr Adran Ynni a Newidiaeth yn yr Hinsawdd)

**18 Mai 2011 yn APCC**
*Beth yw Diben Prifysgolion?*, Symposiwm undydd o dan y Thema Prifysgolion, gyda'r siaradwyr yn cynnwys: Yr Athro Graham Richards CBE DSc FRSC (etholwyd yn FLSW, 2010/11), Prifysgol Rhydychen; David Rosser, Cyfarwyddwr Rhanbarthol CBI Cymru; Yr Athro Dai Smith (etholwyd yn FLSW, 2010/11), Prifysgol Abertawe; a John McCormick FRSE, Cadeirydd yr adolygiad annibynnol ar lywodraethu addysg uwch yng Nghymru (Mawrth 2011)

## Rhai o Ddigwyddiadau'r Dyfodol

**4 Mehefin 2011, Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd**
*Ancient Britons, Europe and Wales: New Research in Genetics, Archaeology, and Linguistics*, Cynhadledd undydd a noddir ar y cyd gan Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru a Chymdeithas Ddysgedig Cymru, ac a drefnir gan yr Athro Syr Barry Cunliffe CBE FSA FLSW FBA a'r Athro John Koch (etholwyd yn FLSW, 2010/11)

**7 Mehefin 2011 ym Mhrifysgol Caerdydd**
*The coldest march of Robert Falcon Scott*, darlith yn y Gyfres Ddathliadau gan yr Athro Susan Solomon FRS, Prifysgol Colorado yn Boulder, a noddir gan y Gymdeithas, fel rhan o Gyfres Ddarlithoedd Scott, a drefnir gan Yr Athro Dianne Edwards CBE ScD FRSE FLSW FRS, Ysgol Wyddorau'r Daear a'r Eigion ym Mhrifysgol Caerdydd, i ddathlu canmlwyddiant taith y Capten Scott i Begwn y De

**20 – 22 Gorffennaf 2011 ym Mhrifysgol Bangor**
*Writing Welsh History, 1850-1950: Contexts and Comparisons, cynhadledd i ddathlu Canmlwyddiant* History of Wales (1911) *J. E. Lloyd*, a drefnir gan Yr Athro Huw Pryce (etholwyd yn FLSW, 2010/11) *et a*l o Ysgol Hanes, Hanes Cymru ac Archaeoleg Prifysgol Bangor mewn cydweithrediad â'r Gymdeithas

# Y Bwlch Cyllido:
# Cymorth gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i'n prifysgolion

Mae Datganiad Cenhadaeth y Gymdeithas yn cynnwys y canlynol:

rhoddi cyngor a chynnig sylwadau ysgolheigaidd annibynnol ac arbenigol ar faterion sy'n effeithio ar les Cymru a'i phobl, a datblygu trafodaeth a chydweithrediad cyhoeddus ar faterion o bwys cenedlaethol a rhyngwladol.

Wrth fentro am y tro cyntaf i'r drafodaeth ar faterion polisi cyhoeddus, aeth y Gymdeithas i'r afael â chwestiwn dyrys drwg-effeithiau polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyllido prifysgolion Cymru. Ar 1 Mawrth 2011 cyhoeddodd Cyngor y Gymdeithas bapur yn cynnig sylwadau ar y Bwlch Cyllido. Dangosodd y papur mai polisi o dan-gyllido prifysgolion Cymru a fu gan LlCC dros y degawd diwethaf, o gymharu â phrifysgolion Lloegr a'r Alban, er bod ganddi ddyletswydd ddatganoledig i gynnal prifysgolion Cymru ac i sicrhau eu bod yn addas i'w dibenion, eu bod yn meddu ar staff rhyngwladol ardderchog, ac yn meddu ar offer, llyfrgelloedd ac adeiladau o'r radd flaenaf. Dangosodd y papur fod y bwlch ariannu rhwng Cymru a Lloegr, yn ystod y cyfnod rhwng 2000 a 2009, gymaint â £360 miliwn, a bod y bwlch rhwng Cymru a'r Alban yn £1 biliwn -- er bod arian mawr wedi ei wario dros yr un cyfnod mewn sectorau cyhoeddus eraill yng Nghymru.

Dadl y papur yw bod tan-gyllido o'r fath yn tanseilio cynaladwyedd dysg yng Nghymru, a nododd:

- nad oedd yn syndod, o ystyried y ffigurau uchod, nad oedd prifysgolion Cymru yn perfformio'n dda, yn ôl y rhan fwyaf o ddangosyddion, o'u cymharu â phrifysgolion mewn rhannau eraill o'r DU a thrwy'r byd;
- fod tan-gyllido prifysgolion yn niweidio economi Cymru am fod yr effaith negyddol ar wyddoniaeth, peirianneg a thechnoleg Cymru yn golygu bod y wlad yn llai deniadol i ddiwydiant a masnach, yn enwedig y sector technoleg uchel.

Daeth y papur i'r casgliad fod penderfyniadau diweddaraf y Llywodraeth (i dorri 9 y cant oddi ar gyllideb y prifysgolion ar gyfer 2011-12, ac, yn sgîl y cyhoeddiad y gallai prifysgolion Lloegr godi eu ffioedd i uchafswm o £9000 yn 2012-13, i dalu am y codiadau yn ffioedd myfyrwyr Cymru, boed y rheini'n astudio yng Nghymru neu yn rhywle arall) – fod hyn oll yn gwaethygu'r effaith a gafodd degawd o dan-gyllido ar ein prifysgolion, ac "nad yw'n gwneud dim i wella cyflwr ariannol bregus y sefydliadau hyn sydd o bwys Cenedlaethol," eithr yn hytrach "yn rhoi Cymru yn y lôn araf yn barhaol".

Dywed hefyd: "Y mae gwanhau prifysgolion Cymru ymhellach, ar ôl degawd o gefnogaeth wael gan LlCC ... [yn golygu mai] ar y goriwaered yr ânt. Nid yw hynny o gymorth o gwbl i hybu'r gred fod Cymru yn wlad fechan, fedrus".

Ni chafwyd ymateb gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, ac eithrio hyn, sef ailadrodd ei disgrifiad o'r Blwch Cyllido fel un "honedig" (a hynny er gwaetha'r ffaith fod Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru wedi cyhoeddi Cylchlythyr o dan y teitl "Y Bwlch Cyllido" bob blwyddyn ers pum mlynedd, cylchlythyr yn dadansoddi cyflwr ariannol y prifysgolion yng Nghymru o'i gymharu â chyflwr ariannol prifysgolion rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig). Unig ymateb arall LlCC oedd y byddai newidiadau yn Lloegr yn y dyfodol yn "dileu" y bwlch cyllido.

Yn dilyn papur cyntaf y Cyngor, ysgrifennodd Llywydd y Gymdeithas at arweinwyr pedair prif blaid wleidyddol Cymru ar 17 Mawrth 2011, yn galw arnynt i fynd i'r afael â'r Bwlch Cyllido yn eu maniffestos ar gyfer Etholiadau'r Cynulliad ym mis Mai 2011. Ni wnaeth yr un ohonynt hynny'n benodol.

**Cred y Gymdeithas fod y mater hwn yn un aruthrol o bwysig i Gymru a bydd yn parhau i ddadlau dros lefel mwy priodol o gyllid i brifysgolion - a fydd yn dileu'r Bwlch Cyllido mewn gwirionedd.**

# Y Gymrodoriaeth

Rhestrir Cymrodyr Cychwynnol y Gymdeithas - y rhai a ddaeth ynghyd yn wirfoddol i sefydlu'r Gymdeithas - ar dudalen 3 o'r Adolygiad hwn. Roedd trigain ac un o Gymrodyr Cychwynnol yn wreiddiol, ond, yn anffodus, mae tri ohonynt wedi ein gadael. Bu farw dau ohonynt - Yr Athro Syr David Williams QC DL FLSW, a'r Athro Eric Sunderland CBE FIBiol FLSW - cyn lansiad swyddogol y Gymdeithas ym mis Mai 2010. Bu farw'r trydydd, y Barwn (Brian) Flowers o Queen’s Gate yn ninas Westminster Kt DSc FInstP FLSW FRS, yn ystod 2010/11.

## Y Barwn (Brian) Flowers (13 Medi 1924 – 25 Mehefin 2010)

Gyda thristwch mawr y c yhoedda’r Gymdeithas farwolaeth Y Barwn Flowers o Queen’s Gate yn Ninas Westminster Kt DSc FInstP FLSW FRS, a fu farw ar 25 Mehefin 2010, wedi cyfnod o salwch. Roedd Yr Arglwydd Flowers yn un o weinyddwyr gwyddonol ac academaidd mwyaf nodedig ei genhedlaeth. Yr oedd yn ffisegydd niwclear o fri, a addysgwyd yn Ysgol Bishop Gore, Abertawe, ac ym Mhrifysgol Caergrawnt. Yn gynnar yn ei yrfa ar ôl yr Ail Ryfel Byd bu’n gweithio yn Sefydliad Ymchwil Ynni Atomig (AERE) Hartwell. Yn 1958, fe'i penodwyd yn Athro Ffiseg Ddamcaniaethol ym Mhrifysgol Manceinion, ac, ym 1961, yn Athro Langworthy mewn Ffiseg yno. Etholwyd ef yn Gymrawd o'r Gymdeithas Frenhinol ym 1961, ag yntau ond yn 37 oed. Rhwng 1967 a 1973 ef oedd Cadeirydd y Cyngor Ymchwil Gwyddoniaeth. Cafodd ei urddo’n farchog ym 1969, ac fe'i gwnaed yn Rheithor Coleg Imperial Llundain ym 1973. Gwasanaethodd fel Is-Ganghellor Prifysgol Llundain rhwng 1985 a 1990. Gwerthfawrogwyd ei waith fel un o Gymrodyr Cychwynnol y Gymdeithas yn fawr iawn gan ei gydweithwyr ac mae hiraeth mawr ar ei ôl. Mae'r Gymdeithas wedi estyn cydymdeimlad dwys â'i deulu.

## Cymrodyr Newydd: Cylch Etholiadol Cyntaf 2010/11

Un o gamau pwysicaf y Gymdeithas yn ystod 2010/11 oedd cynnal Etholiad Cyntaf Cymrodyr newydd, i ychwanegu at y rhestr glodwiw o Gymrodyr Cychwynnol.

Drwy enwebiad gan y Cymrodyr a etholwyd eisoes yr etholir Cymrodyr newydd i Gymdeithas Ddysgedig Cymru. Mae’r etholiad yn agored i wŷr a gwragedd o bob oed ac o bob cefndir ethnig:

- a ragorodd ac a enillodd fri mewn unrhyw un o'r disgyblaethau academaidd, neu, a hwythau'n perthyn i’r proffesiynau, i’r celfyddydau, i ddiwydiant, i fasnach neu i’r gwasanaethau cyhoeddus, sydd wedi gwneud cyfraniad arbennig i fyd dysg; ac
- sydd yn preswylio yng Nghymru, neu a aned yng Nghymru ond sydd yn preswylio yn rhywle arall, neu sydd fel arall â chyswllt penodol â Chymru.

Mae'r pwyslais hwn ar ragoriaeth a bri yn sicrhau bod Cymrodoriaeth y Gymdeithas yn cynrychioli'r gorau y gall Cymru ei gyflawni ym mhob un o’r prif ddisgyblaethau academaidd.

Yn y lle cyntaf, ystyriwyd yr enwebiadau a ddaeth i law yn 2010/11 gan ddau Bwyllgor Craffu , y naill â chyfrifoldeb dros y Celfyddydau, y Dyniaethau a’r Gwyddorau Cymdeithasol, a’r llall yn gyfrifol am Wyddoniaeth, Technoleg a Meddygaeth. Ar sail y cyngor a gafwyd gan y pwyllgorau hyn, lluniodd y Cyngor ei restr gymeradwy o ymgeiswyr, rhestr a gyflwynwyd i'r Gymrodoriaeth oll i'w chadarnhau a’u hethol yn ffurfiol. Etholwyd 119 o Gymrodyr newydd ym mis Ebrill 2011; bellach y mae 177 o Gymrodyr. Cyfnerthwyd y Gymdeithas yn arw gan yr etholiad cyntaf hwn. Rhestrir y Cymrodyr newydd ar y tudalennau canlynol.

*Bydd ein Cymrodoriaeth yn tyfu ar sail etholiad ac adolygiad gan gymheiriaid. Bydd cael eu hethol yn nod i’n hysgolheigion ifainc.*

Syr John Cadogan
Anerchiad Cyntaf y Llywydd, 25 Mai 2010

Y cam cyntaf at adeiladu Cymrodoriaeth gref a chynrychioliadol yw’r Etholiad cyntaf hwn. Rhagwelir y bydd y gwaith yn parhau am dair blynedd neu ragor.

# Cymrodyr a Etholwyd yn yr Etholiad Cyntaf, 2010/11

**Yr Athro Jane Aaron FLSW**
Athro Saesneg, Adran y Dyniaethau, Prifysgol Morgannwg

**Yr Athro John Aggleton FMedSci FLSW**
Athro Niwrowyddoniaeth Wybyddol, Ysgol Seicoleg, Prifysgol Caerdydd

**Yr Athro Miranda Aldhouse-Green FLSW**
Athro Archaeoleg, Ysgol Archaeoleg, Hanes a Chrefydd, Prifysgol Caerdydd

**Yr Athro Michael Bassett DSc FGS FLSW**
Ceidwad Emeritws Daeareg, Amgueddfa Genedlaethol Cymru

**Yr Athro Gerrit-Jan Berendse FLSW**
Athro Llenyddiaeth a Diwylliant Ewropeaidd Cyfoes, Ysgol Astudiaethau Ewropeaidd, Prifysgol Caerdydd

**Yr Athro Lynne Boddy DSc FLSW**
Ysgol y Biowyddorau, Prifysgol Caerdydd

**Yr Athro David Boucher FRHistSAcSS FLSW**
Pennaeth yr Ysgol Astudiaethau Ewropeaidd ac Athro Athroniaeth Wleidyddol, Prifysgol Caerdydd

**Yr Athro Huw Bowen FRHistSAcSS FLSW**
Athro Hanes Modern, Adran Hanes, Prifysgol Abertawe

**Yr Athro Michael Bowker FRSC FLSW**
Athro Cemeg Arwynebedd, Ysgol Gemeg, Prifysgol Caerdydd

**Yr Athro Phillip Brown FLSW**
Athro Ymchwil Hyglod, Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol, Prifysgol Caerdydd

**Yr Athro Michael Bruford FLSW**
Pennaeth Grŵp Ymchwil, Ysgol y Biowyddorau, Prifysgol Caerdydd

**Yr Athro Martin Campbell-Kelly FBCS FLSW**
Athro Emeritws, Adran Wyddoniaeth Gyfrifiadurol, Prifysgol Warwick

**Yr Athro Barry Carpenter FLSW**
Athro Cemeg a Chyfarwyddwr Canolfan Cemeg Organig Ffisegol, Ysgol Gemeg, Prifysgol Caerdydd

**Yr Athro Harold Carter DLitt FRGS FLSW**
Athro Emeritws Daearyddiaeth, Prifysgol Aberystwyth

**Yr Athro Kingsley Cavell FRSC FLSW**
Athro Cemeg Anorganig, Ysgol Gemeg, Prifysgol Caerdydd

**Dr Robin Chapman DLitt FLSW**
Adran y Gymraeg, Prifysgol Aberystwyth

**Yr Athro Michael Charlton FInstP FLSW**
Athro Ffiseg Arbrofol, Adran Ffiseg, Prifysgol Abertawe; Uwch Gymrawd Ymchwil EPSRC

**Yr Athro Alistair Cole FRHistSAcSS FLSW**
Athro Gwleidyddiaeth Ewropeaidd, Ysgol Astudiaethau Ewropeaidd, Prifysgol Caerdydd

**Yr Athro Hugh Compston FLSW**
Athro Gwleidyddiaeth, Ysgol Astudiaethau Ewropeaidd, Prifysgol Caerdydd

**Dr Mary-Ann Constantine FLSW**
Cymrawd Ymchwil Hŷn, Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru

**Yr Athro Alun Davies FRSE FMedSci FLSW**
Athro Niwrofioleg, Ysgol y Biowyddorau, Prifysgol Caerdydd

**Yr Athro Brian Davies FIMA FRS FLSW**
Athro Emeritws a Chymrawd Ymchwil Mygedol, Coleg y Brenin Llundain

**Dr John Davies FLSW**
Yn flaenorol, Uwch Ddarlithydd yn Adran Hanes Cymru, Prifysgol Aberystwyth

**Yr Athro Norman Davies FRHistS FLSW FBA**
Cymrawd Ychwanegol, Coleg Wolfson, Prifysgol Rhydychen; Athro Emeritws Hanes Pwylaidd, Ysgol Astudiaethau Slafonig a Dwyrain Ewrop, Prifysgol Llundain

**Yr Athro Richard Davies FLSW**
Is-Ganghellor, Prifysgol Abertawe; yn flaenorol, Athro Ystadegau Cymdeithasol a Dirprwy Is-Lywydd, Prifysgol Lancaster

**Yr Athro Russell Davies FLSW**
Pennaeth Ysgol Fathemateg, Prifysgol Caerdydd

**Dr Sally Davies FRCP FLSW**
Is-Ddeon, Ysgol Addysg Feddygol a Deintyddol Ôl-raddedig, Prifysgol Caerdydd; Ymgynghorydd mewn Geneteg Feddygol, Gwasanaeth Geneteg Feddygol Cymru Gyfan, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

**Yr Athro Stephen Dunnett DSc FMedSci FLSW**
Athro Niwrowyddoniaeth, Ysgol y Biowyddorau, Prifysgol Caerdydd

**Yr Athro Laurence Eaves CBE FLSW FRS**
Athro Lancashire-Spencer mewn Ffiseg, Prifysgol Nottingham

**Dr Kenneth Edwards FLSW**
Yn flaenorol: Is-Ganghellor, Prifysgol Caerlŷr; Pennaeth Adran Eneteg, Prifysgol Caergrawnt

**Yr Athro David Evans FLSW**
Athro Ymchwil Mathemateg, Ysgol Fathemateg, Prifysgol Caerdydd, a Sefydliad Gwyddorau Mathemateg a Chyfrifiadurol Cymru

**Yr Athro Desmond Evans FLSW**
Athro Emeritws, Ysgol Fathemateg, Prifysgol Caerdydd

**Yr Athro Lyn Evans CBE FInstP FLSW FRS**
Yn flaenorol, Arweinydd y Peiriant Gwrthdaro Hadron Mawr ac Aelod o'r Gyfarwyddiaeth, CERN

**Y Parchedig Owen E Evans DD FLSW**
Yn flaenorol: Uwch Ddarlithydd mewn Astudiaethau Beiblaidd, Prifysgol Bangor; Cyfarwyddwr, *Y Beibl Cymraeg Newydd*

**Yr Athro Roger Falconer DSc DEng FREng FLSW**
Athro Halcrow Rheolaeth Dŵr, a Chyfarwyddwr Sefydliad yr Amgylchedd a Chynaladwyedd, Ysgol Beirianneg, Prifysgol Caerdydd

**Yr Athro Maria Goddard FLSW**
Athro Economeg Iechyd a Chyfarwyddwr Canolfan Economeg Iechyd, Prifysgol Caerefrog

**Dr David Grant CBE FREng FIET FLSW**
Is-Ganghellor, Prifysgol Caerdydd; yn flaenorol, Cyfarwyddwr Technegol, GEC plc

**Yr Athro Jeffrey Griffiths FRCP FRSocMed FIMA FLSW**
Athro Mathemateg, Ysgol Fathemateg, Prifysgol Caerdydd

**Yr Athro Ralph Griffiths OBE DLitt FRHistS FLSW**
Athro Emeritws mewn Hanes Canoloesol, Adran Hanes, Prifysgol Abertawe

**Yr Athro Ian Halliday CBE DSc FInstP FRSE FLSW**
Llywydd, Sefydliad Gwyddoniaeth Ewropeaidd; yn flaenorol: Athro Ffiseg a Phennaeth yr Adran Ffiseg, Prifysgol Abertawe; Prif Weithredwr, Cyngor Ymchwil Ffiseg Ronynnol a Seryddiaeth

**Yr Athro Peter Harper FRCP FLSW**
Athro Emeritws, Geneteg Ddynol, Prifysgol Caerdydd

**Yr Athro John Harries FinstP FRMetS FLSW**
Prif Ymgynghorydd Gwyddonol, Llywodraeth Cynulliad Cymru; yn flaenorol, Athro Arsylwi Daearol, Coleg Imperial, Llundain

**Yr Athro Kenneth Harris FRSE FRSC FLSW**
Athro Ymchwil Hyglod, Ysgol Gemeg, Prifysgol Caerdydd

**Yr Athro John Harwood DSc FLSW**
Athro Biocemeg a Dirprwy Gyfarwyddwr Ysgol y Biowyddorau, Prifysgol Caerdydd

**Yr Athro Julian Hopkin CBE FRCP FMedSci FLSW**
Rheithor Ysgol Meddygaeth, Prifysgol Abertawe; Athro Meddygaeth a Ffisigwr Ymgynghorol Mygedol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

**Yr Athro Ieuan Hughes FMedSci FRCP FRCP(C) FRCPCH FLSW**
Pennaeth Adran Baediatreg, Prifysgol Caergrawnt

**Yr Athro Ronald Hutton FSA FRHistS FLSW**
Athro Hanes, Prifysgol Bryste

**Mr Daniel Huws FLSW**
Cymrawd Mygedol, Canolfan Astudiaethau ac Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru; yn flaenorol, Ceidwad Llawysgrifau a Chofysgrifau, Llyfrgell Genedlaethol Cymru

**Yr Athro Martin Huxley FLSW**
Athro Mathemateg, Ysgol Fathemateg, Prifysgol Caerdydd

**Yr Athro Nicholas Jenkins FREng FLSW**
Athro Ynni Adnewyddol, a Chyfarwyddwr Sefydliad Ynni Adnewyddol, Ysgol Beirianneg, Prifysgol Caerdydd

**Yr Athro Dafydd Johnston FLSW**
Cyfarwyddwr Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru

**Yr Athro Christopher Jones FLSW**
Athro Systemau Gwybodaeth Daearyddol, Ysgol Wyddoniaeth Gyfrifiadurol a Gwybodeg, Prifysgol Caerdydd

**Y Parchedig Athro Gwilym Henry Jones DLitt FLSW**
Athro Emeritws; yn flaenorol Pennaeth Ysgol Ddiwinyddiaeth ac Astudiaethau Crefyddol, Prifysgol Bangor

**Yr Athro Ieuan Gwynedd Jones DLitt FRHistS FLSW**
Athro Emeritws; yn flaenorol Athro Syr John Williams mewn Hanes Cymru, Prifysgol Aberystwyth

**Yr Athro Gareth Wyn Jones DSc FSB FRSC FLSW**
Athro Emeritws; yn flaenorol Athro yn Ysgol y Gwyddorau Biolegol ac yn Ysgol Amaethyddiaeth a Gwyddorau Coedwigaeth, Prifysgol Bangor

**Yr Athro Richard Wyn Jones FLSW**
Cyfarwyddwr Canolfan Llywodraethu Cymru, Prifysgol Caerydd

**Yr Athro Steve Jones DSc FLSW**
Athro Emeritws Geneteg, Coleg Prifysgol Llundain

**Yr Athro William Jones FRSC FLSW**
Athro Cemeg Deunyddiau a Phennaeth Adran Gemeg, Prifysgol Caergrawnt

**Yr Athro David Knight FRSC FLSW**
Athro Cemeg Organig Synthetig, Ysgol Gemeg, Prifysgol Caerdydd

**Yr Athro Peter Knowles FLSW**
Athro Cemeg Ddamcaniaethol a Phennaeth Ysgol Gemeg, Prifysgol Caerdydd

**Yr Athro John T Koch FLSW**
Cymrawd Ymchwil Hŷn, Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru

**Mr David Lambert FLSW**
Cymrawd Ymchwil Mygedol, Ysgol y Gyfraith, Caerdydd, ac Aelod Hŷn y Gyfraith, Canolfan Llywodraethu Cymru, Prifysgol Caerdydd; yn flaenorol, Prif Ymgynghorydd Cyfreithiol i Lywodraeth Cynulliad Cymru

**Yr Athro Noel Lloyd CBE FLSW**
Is-Ganghellor ac Athro Mathemateg, Prifysgol Aberystwyth

**Yr Athro Mari Lloyd-Williams FRCP FRCGP FLSW**
Athro a Chyfarwyddwr Grŵp Astudiaethau Gofal Lliniarol a Chefnogol Academaidd, Ysgol Wyddorau Poblogaeth, y Gymuned ac Ymddygiad, Prifysgol Lerpwl; Aelod o CCAUC

**Mr Peter Lord FLSW**
Cymrawd Ymchwil, Canolfan Ymchwil i Lên ac Iaith Saesneg Cymru, Prifysgol Abertawe

**Yr Athro Terence Lyons FIMS FRSE FLSW FRS**
Athro Wallis mewn Mathemateg, Prifysgol Rhydychen; Cyfarwyddwr Sefydliad Gwyddorau Mathemateg a Chyfrifiadurol Cymru

**Yr Athro Terry Marsden AcSS FLSW**
Athro Polisi a Chynllunio Amgylcheddol, Ysgol Gynllunio Dinesig a Rhanbarthol, a Chyfarwyddwr Sefydliad Ymchwil am Leoedd Cynaliadwy, Prifysgol Caerdydd

**Yr Athro Ralph Martin FIMA FLSW**
Athro Cyfrifiadura Geometrig, Ysgol Wyddoniaeth Gyfrifiadurol a Gwybodeg, Prifysgol Caerdydd

**Yr Athro Patrick McGuinness FLSW**
Athro Ffrangeg, Prifysgol Rhydychen

**Yr Athro Robert McNabb FLSW**
Athro Economeg, Ysgol Fusnes Caerdydd, Prifysgol Caerdydd

**Y Parchedig Athro Densil Morgan DD FLSW**
Athro Diwinyddiaeth a Phennaeth Ysgol Ddiwinyddol, ac Astudiaethau Crefyddol ac Astudiaiethau Islamaidd, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

**Yr Athro Kenneth Morgan FREng FICE FIMA FLSW**
Athro Modelu Cyfrifiadurol, Ysgol Beirianneg, Prifysgol Abertawe

**Yr Athro Paul Morgan FRCPathFMedSci FLSW**
Deon a Phennaeth Ysgol Feddygaeth, Prifysgol Caerdydd

**Yr Athro Vernon Morgan DSc FREng FCGI FIET FInstP FLSW**
Athro Ymchwil Hyglod, Ysgol Beirianneg, Prifysgol Caerdydd

**Yr Athro J Gareth Morris CBE FSB FLSW FRS**
Athro Emeritws, Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig, Prifysgol Aberystwyth

**Yr Athro Jim Murray FLSW**
Pennaeth Adran y Gwyddorau Moleciwlaidd, Ysgol y Biowyddorau, Prifysgol Caerdydd

**Yr Athro Alexis Nuselovici FLSW**
Athro Astudiaethau Diwylliannol Cyfoes, Ysgol Astudiaethau Ewropeaidd, Prifysgol Caerdydd

**Yr Athro Robin Okey FRHistS FLSW**
Athro Emeritws Hanes, Prifysgol Warwick

**Yr Athro Syr John O'Reilly DSc FIET FRAeS FREng FLSW**
Is-Ganghellor Prifysgol Cranfield; yn flaenorol: Athro a Phennaeth Ysgol Beirianneg Electronig, Prifysgol Bangor; Prif Weithredwr y Cyngor Ymchwil y Gwyddorau Peirianegol a Ffisegol

**Yr Athro Michael Owen FRCPsych FMedSci FLSW**
Pennaeth Adran Feddygaeth Seicolegol, Cyfarwyddwr Canolfan Geneteg a Genomeg Niwroseiciatryddol MRC, a Chyfarwyddwr Sefydliad Ymchwil Niwrowyddoniaeth ac Iechyd Meddyliol, Prifysgol Caerdydd

**Mr Alwyn Owens FLSW**
Yn flaenorol, Ddarlithydd Hŷn mewn Electroneg, Prifysgol Bangor

**Yr Athro John Parkes FLSW**
Athro Ymchwil Hyglod a Phennaeth Ysgol Wyddorau'r Ddaear a'r Môr, Prifysgol Caerdydd

**Yr Athro Christopher Pelling FLSW FBA**
Athro Brenhinol yr Iaith Roegaidd, Prifysgol Rhydychen

**Yr Athro Ole Petersen CBE FLSW FRS**
Athro gyda'r Cyngor Ymchwil Meddygol a Chyfarwyddwr Ysgol y Biowyddorau, Prifysgol Caerdydd

**Yr Athro Duc Truong Pham OBE DSc FREng FLSW**
Athro Gweithgynhyrchu a Reolir gan Gyfrifiadur, Ysgol Beirianneg, Prifysgol Caerdydd

**Yr Athro Wayne Powell DSc FLSW**
Cyfarwyddwr Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig, Prifysgol Aberystwyth

**Yr Athro Huw Pryce FRHistS FLSW**
Athro Hanes Cymru, Ysgol Hanes, Hanes Cymru ac Archaeoleg, Prifysgol Bangor

**Y Yr Athro Brian Randell DSc FBCS FLSW**
Athro Emeritws Gwyddoniaeth Gyfrifiadurol ac Ymchwiliwr Testun diddordeb a thrafod oedd, Ysgol Wyddoniaeth Gyfrifiadurol, Prifysgol Newcastle

**Yr Athro Elmer Rees CBE FRSE FLSW**
Athro Emeritws Mathemateg, Prifysgol Caeredin; Athro Gwadd, Prifysgol Bryste

**Yr Athro Gareth Rees AcSS FLSW**
Cyfarwyddwr Sefydliad Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd Cymru, Data a Dulliau (WISERD), Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol, Prifysgol Caerdydd

**Yr Athro Graham Richards CBE DSc FRSC FLSW**
Athro Emeritws Cemeg, Prifysgol Rhydychen

**Yr Athro David Rickard FLSW**
Athro Geogemeg, Ysgol Wyddorau'r Ddaear a'r Môr, Prifysgol Caerdydd

**Yr Athro Brynley Roberts DLitt FLA FLSW**
Yn flaenorol: Llyfrgellydd, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Athro a Phennaeth Adran y Gymraeg, Prifysgol Abertawe

**Yr Athro Wyn Roberts DSc FRSC FLSW**
Athro Mygedol Cemeg ac, yn flaenorol, Pennaeth Ysgol Gemeg, Prifysgol Caerdydd

**Yr Athro Robert RowthornAcSS FLSW**
Athro Emeritws Economeg, Prifysgol Caergrawnt

**Yr Athro Bernard Schutz FInstP FLSW**
Cyfarwyddwr, Sefydliad Max Planck ar gyfer Ffiseg Ddisgyrchol (Sefydliad Albert Einstein), Potsdam, yr Almaen; Athro, Ysgol Ffiseg a Seryddiaeth, Prifysgol Caerdydd

**Yr Athro Roger Scully AcSS FLSW**
Athro Gwyddoniaeth Wleidyddol a Chyfarwyddwr Sefydliad Gwleidyddiaeth Cymru, Prifysgol Aberystwyth

**Yr Athro Jonathan Shepherd CBE FMedSci FLSW**
Athro Llawdriniaeth y Geg, y Genau a'r Wyneb, Ysgol Ddeintyddiaeth, Prifysgol Caerdydd

**Yr Athro Alan Shore FInstP FLSW**
Athro Peirianneg Drydanol, Ysgol Beirianneg Electronig, Prifysgol Bangor

**Yr Athro Graham Shore FLSW**
Athro Ffiseg Ddamcaniaethol, Pennaeth yr Adran Ffiseg, a Dirprwy Bennaeth Ysgol y Gwyddorau Ffisegol, Prifysgol Abertawe

**Syr Brian Smith DSc FRSC FLSW**
Aelod o CCAUC; yn flaenorol: Darlithydd mewn Cemeg Ffisegol, Prifysgol Rhydychen; Meistr, Coleg St Catherine, Rhydychen; Is-Ganghellor, Prifysgol Caerdydd

**Yr Athro Dai Smith FLSW**
Athro Ymchwil Raymond Williams mewn Hanes Diwylliannol Cymru, Prifysgol Abertawe; Cadeirydd Cyngor Celfyddydau Cymru

**Yr Athro Keith Smith FRSC FLSW**
Athro Cemeg Organig, Ysgol Gemeg, Prifysgol Caerdydd

**Yr Athro Anita Thapar FRCPsych FLSW**
Athro Seiciatreg Plant a Phobl ifainc, Ysgol Feddygaeth, Prifysgol Caerdydd

**Yr Athro Gwyn Thomas FLSW**
Athro Emeritws yn y Gymraeg ac, yn flaenorol, Pennaeth Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Bangor

**Yr Athro Hywel Thomas FREng FLSW**
Dirprwy Is-Ganghellor, ac Athro Peirianneg Sifil ac Athro UNESCO mewn Datblygiad Amgylchedd Cynaliadwy, Ysgol Beirianneg, Prifysgol Caerdydd

**Yr Athro Peter Townsend DSc FLSW**
Dirprwy Gadeirydd, Sefydliad Mecaneg Hylifol an-Newtonaidd Prifysgol Cymru; yn flaenorol, Dirprwy Is-Ganghellor, Prifysgol Abertawe

**Yr Athro Aubrey Truman FRSE FLSW**
Pennaeth Adran Fathemateg, Prifysgol Abertawe

**Yr Athro Geoffrey Wainwright MBE FSA FLSW**
Cadeirydd, Wessex Archaeology; yn flaenorol, Prif Archeolegydd, English Heritage

**Yr Athro David Walker FBCS FLSW**
Athro Cyfrifiadura Perfformiad Uchel, Ysgol Wyddoniaeth Gyfrifiadurol a Gwybodeg, Prifysgol Caerdydd

**Syr Adrian Webb DLitt FLSW**
Cadeirydd, Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru; Comisiynydd Cymru, Comisiwn y DU ar Gyflogaeth a Sgiliau; yn flaenorol, Is-Ganghellor, Prifysgol Morgannwg

**Yr Athro Nicholas Wheeler FLSW**
Adran Wleidyddiaeth Ryngwladol, Prifysgol Aberystwyth

**Yr Athro Geraint Williams FMedSci FRCP FRCPath FLSW**
Athro Patholeg, Ysgol Feddygaeth, Prifysgol Caerdydd; Ymgynghorydd Mygedol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

**Yr Athro Ioan M Williams FLSW**
Athro Emeritws; yn flaenorol, Pennaeth Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu, Prifysgol Aberystwyth

**Yr Athro John Williams FLSW**
Athro Peirianneg Gwybodaeth, Massachusetts Institute of Technology, Cambridge, MA, UDA

**Yr Athro Julie Williams FLSW**
Athro mewn Geneteg Niwroseicolegol, Adran Feddygaeth Seicolegol, a Phennaeth Ymchwil Niwroddirywiad, Canolfan Geneteg a Genomeg Niwroseiciatrig MRC, Prifysgol Caerdydd

**Yr Athro Rhodri Williams FInstPFIChemE FLSW**
Ysgol Beirianneg, Prifysgol Abertawe

**Syr Roger Williams FLSW**
Yn flaenorol: Athro Polisi Llywodraeth a Gwyddoniaeth, Prifysgol Manceinion; Is-Ganghellor Prifysgol Reading; Cadeirydd CCAUC

**Yr Athro David Wynford-Thomas DSc FMedSciFRCPath FLSW**
Dirprwy Is-Ganghellor a Phennaeth Coleg Meddygaeth, Gwyddorau Biolegol a Seicoleg, Prifysgol Caerlŷr; yn flaenorol, Deon Ysgol Feddygaeth, Prifysgol Caerdydd